| 1 (a) i) | Awdurdod Hedfan Sifil (1) sector cyhoeddus (1) sefydlwyd gan Ddeddf Hedfan Sifil (1) mae'n trwyddedu awyrennau, cwmnïau hedfan a chriwiau (1), yn gyfrifol am reoli'r awyr uwchben y DU (1) mae'n rhoi/cyhoeddi ATOLs (1). | 1 marc am bob gosodiad perthnasol. Hyd at 4 marc<br>**4 marc** |
| 1 (a) ii) | Cymdeithas Trefnwyr Teithiau Prydain (1) cymdeithas masnachu (1) gall trefnwyr teithiau a chwmnïau teithio fod yn aelodau (1) gosod lleiafswm o safonau perfformiad (1) drwy Godau Ymddygiad (1) hefyd system bondio (1). | 1 marc am bob gosodiad perthnasol. Hyd at 4 marc<br>**4 marc** |
| 1 (b) | **Lefel 1**<br>Mae un yn edrych ar ôl teithio yn yr awyr a threfnwyr teithiau yw'r llall.<br>**Lefel 2**<br>Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil yn y sector cyhoeddus ac mae'n rheoli unrhyw gorff sy'n ymwneud â theithio yn yr awyr. Cymdeithas masnachu yw ABTA felly dim ond y trefnwyr teithiau a'r cwmnïau teithio hynny sy'n dewis bod yn aelodau sy'n cael eu rheoli gan ABTA. Mae gan y ddau gorff system bondio. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am osodiadau sylfaenol neu os yw'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau'n aneglur<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc lle mae'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau wedi'u nodi'n eglur<br>**4 marc** |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Ateb enghreifftiol</th><th>Dyraniad marciau</th></tr>
<tr><td>2</td><td>Lefel 1<br>Mae ABTA yn adnabyddus.<br>Lefel 2<br>Mae ABTA yn adnabyddus ymysg y cyhoedd a bydd pobl eisiau bwcio gyda threfnydd teithiau sy’n aelod o ABTA achos bod rhaglenni fel ‘Pacio’ / ‘Holiday’ yn dweud wrthyn nhw am edrych am hyn.<br>Lefel 3<br>Mae ABTA yn gymdeithas fasnachu i drefnwyr teithiau felly wrth ymuno bydd yn rhan o ‘glwb’ lle mae aelodau’n edrych ar ôl eu buddiannau eu hunain. Mae ABTA wedi hen sefydlu ac mae iddo enw da am ansawdd a hefyd am amddiffyn pobl yn ariannol. Bydd y system bondio’n sicrhau pobl bod eu harian yn ddiogel a’u bod yn cael gwasanaeth da. Fel corff annibynnol gallant gynnig gwasanaethau fel hyfforddi a fyddai’n llawer rhy ddrud.</td><td>Lefel 1<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy’n ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol<br>Lefel 2<br>3–4 marc am ryw eglurhad a chysylltiad â’r senario<br>Lefel 3<br>5–6 marc am eglurhad manwl a chyswllt eglur â’r senario<br><br>6 marc</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 3 | **Lefel 1**<br>Mae rhywun yno y gallant drafod pethau â nhw i wneud yn siŵr mai dyma'r gwyliau iawn.<br>**Lefel 2**<br>Byddant yn cael gwasanaeth da gan y trefnwyr teithiau a bydd y trefnwyr yn treulio'r amser yn chwilio am y fargen orau.  Hefyd os yw'r trefnydd teithiau'n aelod o ABTA bydd bond ganddo.<br>**Lefel 3**<br>Pan fyddwch yn bwcio gwyliau dros y rhyngrwyd ond mae'r hediadau ar wahân i'r llety nid ydych wedi bwcio pecyn felly nid oes dim i'ch amddiffyn yn ariannol os yw'r cwmni hedfan neu'r gwesty'n mynd i'r wal.  Os ydych yn bwcio drwy drefnydd mae'n debygol o fod yn becyn a chan ei fod yn becyn hedfan bydd gan y cwmni teithiau ATOL felly byddwch wedi cael eich amddiffyn yn ariannol. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am beth eglurhad a chysylltiad â'r senario<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am eglurhad manwl a chysylltiad eglur â'r senario<br>**6 marc** |
| 4 (a) | Ni all roi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol am natur, ansawdd neu werth (1) nwyddau neu wasanaethau (1). Mae'n ymwneud â disgrifiadau ffug neu gyflenwi nwyddau gyda disgrifiad ffug (1). | 1 marc am bob gosodiad perthnasol. Hyd at 4 marc<br>**4 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 4 (b) | **Lefel 1**<br>Mae'r wybodaeth anghywir yn eu llyfrynnau ac ni ddylai staff roi gwybodaeth nad yw'n gywir.<br>**Lefel 2**<br>Mae'n rhaid iddyn nhw hyfforddi'r staff ei gyd fel eu bod yn deall beth mae'n ei olygu i roi gwybodaeth anghywir a sut gall hyn ddigwydd, yn enwedig wrth geisio gwerthu gwyliau. Mae hyn hefyd yn wir am hysbysebu, rhaid gwneud yn siŵr ei fod yn gywir.<br>**Lefel 3**<br>Rhaid i'r holl wybodaeth y maen nhw'n ei defnyddio fod yn gywir neu byddant yn torri'r gyfraith. Gallent nid yn unig orfod mynd gerbron llys ond hefyd byddant yn cael cyhoeddusrwydd gwael a allai atal pobl rhag bwcio gyda nhw. Byddan nhw'n gwirio'r wybodaeth maen nhw'n ei chael gan westai a chwmnïau hedfan ac eraill maen nhw'n cael gwasanaethau ganddyn nhw. Mae cynrychiolwyr yn llenwi rhestri gwirio gwestai i gadarnhau bod gwybodaeth yn y llyfryn yn gywir. Felly maen nhw'n gwybod nad ydyn nhw'n rhoi gwybodaeth ffug gan wybod hynny, er na all hyn fod yn amddiffyniad cyfreithiol. Maen nhw hefyd yn gorfod sicrhau os oes newidiadau'n digwydd ar ôl cyhoeddi llyfrynnau, bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i gwsmeriaid. Mae hyn yn digwydd naill ai drwy lythyrau at gwsmeriaid sydd wedi archebu gwyliau'n barod neu drwy negeseuon a rhoi eu gwneud adeg y bwcio. Gyda hyn maen nhw'n dibynnu ar fod y trefnydd teithiau'n trosglwyddo'r neges ond dyma'r unig beth y gallant ei wneud. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am beth dadansoddi a chysylltiad â'r senario<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am ddadansoddi cyson a chysylltiad eglur â'r senario<br>**6 marc** |
| 5 (a) | *Clefyd*: o bigiadau gan fosgitos (1) fel arfer rhwng machlud a gwawr (1) mae'r symptomau'n cynnwys twymyn (1). | Hyd at 4 marc am ddisgrifiad o falaria<br>**4 marc** |
| 5 (b) | *Rhagofalon*: tabledi (1) wedi'u cymryd ymlaen llaw ac yn ystod yr arhosiad (1) defnyddio rhwydi ac eli gwrthyrru pryfed (1). | Hyd at 3 marc am ddisgrifio sut mae ei rwystro<br>**3 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 5 (c) | **Lefel 1**<br>Dylai'r trefnydd teithiau fod wedi dweud wrthyn nhw am y fisas felly gall fynd â nhw i'r llys.<br>**Lefel 2**<br>Mae Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd yn dweud y dylai'r trefnydd roi gwybodaeth am ofynion pasborts, fisas ac iechyd felly'n gyfreithiol gall fynd â'r trefnwyr teithiau i'r llys.<br>**Lefel 3**<br>Mae Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd yn dweud y dylid rhoi gwybod i deithwyr am ofynion pasborts, fisas ac iechyd. Dylai'r cwmni teithiau fod wedi gwneud hyn. Efallai na ddarllenodd y teithiwr y rhan berthnasol o'r llyfryn. Dylai'r trefnwyr teithiau fod wedi pwysleisio hyn. Os oedd yn y llyfryn gallai'r trefnwyr teithiau ddadlau bod y cwsmer wedi arwyddo'r ffurflen bwcio. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am beth eglurhad a chysylltiad â'r senario<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am eglurhad manwl a chysylltiad eglur â'r senario<br>**6 marc** |
| 5 (ch) | **Lefel 1**<br>Dylent wneud yn siŵr bod eu staff i gyd yn rhoi'r wybodaeth gywir i'r cwsmer.<br>**Lefel 2**<br>Dylent wneud yn siŵr fod y staff i gyd yn cael eu hyfforddi ynghylch yr wybodaeth maen nhw'n disgwyl ei rhoi i gwsmeriaid a ble gallant ddod o hyd i'r wybodaeth fel nad yw cwsmer yn gorfod dioddef.<br>**Lefel 3**<br>Dylent sefydlu system sy'n sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei throsglwyddo i deithiwr a bod hyn yn cael ei ddogfennu. Dylai fod rhestr wirio lle gallant gofnodi'r wybodaeth a roddwyd a dylid gofyn i'r teithiwr ei arwyddo. Efallai bydd angen hyfforddi staff ynghylch pwysigrwydd hyn a ble i ddod o hyd i wybodaeth. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am beth eglurhad a chysylltiad â'r senario<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am eglurhad manwl a chysylltiad eglur â'r senario<br>**6 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 6 (a) | **Lefel 1**<br>Symud pobl allan o'r gwesty.<br>**Lefel 2**<br>Trefnu cludiant er mwyn gallu symud pobl allan o'r gwesty i lety diogel.<br>**Lefel 3**<br>Mae'n dibynnu ar faint o amser sydd ar gael a'r llety arall sydd ar gael. Efallai fod rhaid i'r gwesty sicrhau bod pobl yn ddiogel ar y safle. Bydd hyn yn golygu cysylltu'n uniongyrchol â nhw a dweud wrthynt am aros yn eu hystafelloedd. Gall olygu rhoi basged o fwyd a diod iddynt ar gyfer eu hystafell. Efallai bydd rhaid symud y rhai ar loriau uchel i ystafelloedd cyhoeddus ar y llawr gwaelod. Os ydynt yn symud pobl allan bydd rhaid iddynt ddod o hyd i lety a chludiant addas. Gallai hynny fod yn anodd dod o hyd iddo. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am beth eglurhad a chysylltiad â'r senario<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am eglurhad manwl a chysylltiad eglur â'r senario<br>**6 marc** |
| 6 (b) | E.e. rhyfeloedd, streiciau, aflonyddwch sifil, ymosodiadau gan derfysgwyr, trychinebau naturiol. | 1 marc am bob ateb cywir<br>**3 marc** |
| 6 (c) | Rhaid i'r sefyllfa fod yn briodol ac yn realistig<br>Rhaid i'r ffordd y deliodd y diwydiant â'r sefyllfa fod yn briodol ac yn realistig. | Hyd at 3 marc am ddisgrifio'r sefyllfa. Dylid rhoi marciau am lefel y manylder<br>Hyd at 6 marc am ddadansoddi sut deliwyd â'r sefyllfa<br>**Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am beth dadansoddi a rhyw gysylltiad â sefyllfa argyfwng<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am ddadansoddi manwl a chysylltiad amlwg â sefyllfa argyfwng<br>**9 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 7 | E.e. Swyddfa Is-gennad Prydain (1).<br>Gall roi pasborts newydd (1) trefnu cyllid os oes angen aros am fwy o amser (1). | 1 marc am y corff priodol<br>Hyd at 2 farc am fanylion am y corff<br>**3 marc** |
| 8 (a) | Pasbort (1) sydd mewn grym am chwe mis (1) fisa (1) am gyfnod priodol sydd mewn grym (1) tystysgrif y dwymyn felen (1). | 1 marc am bob gosodiad cywir Hyd at uchafswm o 4 marc<br>**4 marc** |
| 8 (b) | **Lefel 1**<br>Os nad ydynt yn ei wirio'n iawn bydd rhywun yn mynd ar yr awyren heb y ddogfennaeth gywir.<br>**Lefel 2**<br>Gallen nhw gael eu hatal rhag mynd ar yr awyren neu gallen nhw gael eu hatal rhag mynd i'r wlad arall a byddan nhw'n cwyno.<br>**Lefel 3**<br>Cyfrifoldeb y cwmni hedfan yw gwirio'r holl ddogfennaeth ac os yw rhywun yn mynd ar yr awyren heb y pasbort a'r fisa cywir bydd y cwmni hedfan yn cael ei ddirwyo ac yn gorfod talu am hediad y teithiwr adref. Fel asiant i'r cwmni hedfan, mae'r asiantaeth trafod ar y tir yn debygol o fod wedi torri'i chytundeb ac yn y pen draw gallai golli'r cytundeb. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol yn bennaf<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am beth dadansoddi<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am ddadansoddi manwl a chyson<br>**6 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 8 (c) | **Lefel 1**<br>Allan nhw ddim mynd ar yr awyren heb gerdyn byrddio ac allan nhw ddim mynd drwy'r adran ddiogelwch.<br>**Lefel 2**<br>Mae'r cerdyn byrddio'n rhoi mynediad iddynt i'r rhan lle mae'r awyrennau. Dim ond y rhai sydd â cherdyn byrddio all fynd trwodd felly mae'n ffurf dda ar ddiogelwch. Mae'n gwarchod y teithwyr gan na all pobl sydd heb un fynd trwodd.<br>**Lefel 3**<br>Er mwyn cael cerdyn byrddio rhaid i chi ddangos pasbort a fisa a rhaid bod gennych docyn. Rydych chi wedi mynd drwy wiriadau diogelwch yn barod felly rydych yn gwybod yn iawn na chewch broblem wrth fyrddio'r awyren. Mae hefyd yn gwarchod eraill gan ei fod yn cyfyngu ar y mannau lle gall pobl fynd mewn maes awyr ac mae rhai mannau lle mai pobl sydd â cherdyn byrddio'n unig a all fynd iddynt a chan fod y bobl hyn wedi mynd drwy wiriadau diogelwch yn barod wrth gofrestru mae'n fwy diogel i bawb. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n gywir yn bennaf<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am wybodaeth gywir gyda pheth asesu<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc ymatebion wedi'u datblygu gydag asesu manwl<br>**6 marc** |

## DYRANIAD MARCIAU'R AMCANION ASESU

| Cwestiwn | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 (a) | 8 | | | | **8** |
| 1 (b) | 4 | | | | **4** |
| 2 | | 6 | | | **6** |
| 3 | | 6 | | | **6** |
| 4 (a) | 4 | | | | **4** |
| 4 (b) | | 3 | 3 | | **6** |
| 5 (a) | 4 | | | | **4** |
| 5 (b) | 3 | | | | **3** |
| 5 (c) | | | | 6 | **6** |
| 5 (ch) | | | | 6 | **6** |
| 6 (a) | | 6 | | | **6** |
| 6 (b) | 3 | | | | **3** |
| 6 (c) | | | 9 | | **9** |
| 7 | 3 | | | | **3** |
| 8 (a) | | 4 | | | **4** |
| 8 (b) | | | 6 | | **6** |
| 8 (c) | | | | 6 | **6** |
| **Cyfanswm** | **29** | **25** | **18** | **18** | **90** |
| **%** | **33** | **27** | **20** | **20** | **100** |

# Uned 7: Thristiaeth Gyfrifol

## Cynllun marcio

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 1 (a) i) | Sector cyhoeddus – un o'r canlynol:<br>Awdurdod Lleol, Biwro Twristiaeth Brillington neu Fwrdd Croeso'r Gogledd Orllewin (North-West Tourism) (1).<br>Sector preifat — un o'r canlynol:<br>Biwro Twristiaeth, Cymdeithas Gwestywyr Brillington, corff adloniant o'r enw 'Byd y Môr'. Cymdeithas Gwestywyr Brillington, Brillington, corff adloniant o'r enw 'Byd y Môr'. | 1 marc am bob corff cywir<br>1 marc am bob corff cywir<br>**2 farc** |
| 1 (a) ii) | Mae cyrff sector preifat yn gweithredu'n bennaf er mwyn gwneud elw i'w fuddsoddi yn y cwmni (1) tra bo cyrff sector cyhoeddus yn cefnogi twristiaeth drwy roi grantiau (2). | 1 marc am bob sylw sylfaenol a wneir<br>2 farc lle mae'r ddau sector wedi'i drafod a lle nodir gwahaniaeth eglur<br>**2 farc** |
| 1 (a) iii) | Darparu swyddi (1).<br>Gwneud arian (1).<br>Gwella'r economi (1).<br>Creu gwaith yn lleol (2).<br>Creu mewnfuddsoddi i'r economi leol (2). | 1 marc am un amcan economaidd addas<br>2 farc os yw wedi'i eirio'n gywir fel amcan a/neu os defnyddir terminoleg<br>**2 farc** |
| 1 (b) i) | **Lefel 1**<br>Datblygu gwarchodfa natur ar y corsydd (1).<br>**Lefel 2**<br>Datblygu amgueddfa am hanes y porthladd a throi'r hen longau'n atynfeydd ar y dŵr a allai fod â theithiau addysgol (3).<br>**Lefel 3**<br>Datblygu amgueddfa wedi'i seilio ar ddatblygiad y ddinas fel porthladd. Gallai fod gan yr amgueddfa arddangosfeydd gwahanol gan gynnwys arddangosfa ryngweithiol ar hanes y fasnach gaethweision, modelau o longau a delweddau o'r diwydiant adeiladu llongau a mewnforio/allforio nwyddau. Gellid cyflogi cyn-weithwyr yn y dociau i wisgo gwisgoedd arbennig neu roi teithiau tywys gan y byddent yn wybodus am yr ardal (6).<br>Enghreifftiau addas eraill: teithiau tywys o'r harbwr yn ymweld â gwahanol adeiladau, troi'r llongau'n atyniad i ymwelwyr neu amgueddfa fyw. | Hyd at 6 marc am bob cynnig datblygu.<br>**Lefel 1**<br>1–2 farc am ddisgrifiadau sylfaenol sy'n ddamcaniaethol a heb fanylder/ heb gysylltiad eglur â hanes a threftadaeth y porthladd<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am ddisgrifiadau manwl a pheth cysylltiad â hanes a threftadaeth y porthladd<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am ddisgrifiadau manwl wedi'u cysylltu'n eglur â thema'r dreftadaeth Forwrol<br>**12 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 1 (b) ii) | Bydd yr Awdurdod Lleol (1) yn rhoi caniatâd cynllunio ac o bosibl grant bychan tuag at y datblygiad twristiaeth (1).<br>Bydd y grŵp sector gwirfoddol 'Grŵp Gweithredu Achub Corsydd Brillington' (1) yn lobïo'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod y Bartneriaeth yn dylunio ac yn datblygu'r datblygiad twristiaeth mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Byddan nhw'n dod i gyfarfodydd cyhoeddus i ddweud wrth y datblygwyr am unrhyw bryderon sydd ganddynt (2). | Am bob asiant a nodir (uchafswm o 3 marc). Hyd at 3 marc<br>1 marc am yr asiant a hyd at 2 farc am y rôl<br>1 marc am egluro'r rôl yn sylfaenol a 2 farc am ei hegluro'n fanwl<br>**6 marc** |
| 1 (b) iii) | **Lefel 1**<br>Bydd y ganolfan i ymwelwyr wedi'i gwneud o ddefnyddiau sy'n gweddu i'r harbwr a bydd pobl leol yn cael eu cyflogi (2).<br>**Lefel 2**<br>Bydd y ganolfan i ymwelwyr yn cael ei chodi o ddefnyddiau lleol a hynny'n golygu bod y datblygiad yn cydweddu â'r corsydd. Felly bydd effeithiau amgylcheddol negyddol yn cael eu lleihau. Bydd pobl ddi-waith leol yn cael hyfforddiant i ddod yn dywyswyr fel bod eu henillion yn aros yn yr ardal leol (5).<br>**Lefel 3**<br>Gellid troi adeiladau sydd yno'n barod fel siediau'r rheilffordd yn ganolfan i ymwelwyr fel bod adeiladau presennol yn cael eu defnyddio fel nad oes gormod o effaith ar yr amgylchedd. Ym mhrosiect adfywio porthladd Bryste digwyddodd hyn hefyd gyda'r hen sied reilffordd yn dod yn amgueddfa wyddoniaeth ymarferol ond yn yr adeilad oedd yno'n barod. Mae'r datblygiad hwn yn cefnogi egwyddorion twristiaeth gyfrifol yn llawn gan mai ychydig iawn yw'r effaith ar yr amgylchedd ac wrth dirlunio o gwmpas yr adeiladau, caiff ei wella. Bydd pobl leol yn cael eu hyfforddi i fod yn dywyswyr fel y gallan nhw gynnig am waith yn y ganolfan – bydd eu henillion yn aros yn yr ardal leol felly bydd llai o effeithiau economaidd negyddol (8) – un enghraifft fanwl. | **Lefel 1**<br>1–3 marc<br>Eglurhad sylfaenol yn cael ei wneud i gefnogi'r datblygiad<br>**Lefel 2**<br>4–6 marc<br>Eglurhad manwl wedi'i gysylltu'n eglur â'r datblygiad, mae'n bosib y ceir cyfeirio at enghreifftiau<br>**Lefel 3**<br>7–8 marc<br>Sawl eglurhad manwl wedi'u cysylltu'n eglur â'r datblygiad. Sylw gwerthusol mewn perthynas â thwristiaeth gyfrifol, mae'r defnydd o enghreifftiau yn cefnogi hyn.<br>Gydag enghraifft/enghreifftiau cefnogol yn unig y rhoddir marciau ar Lefel 3<br>**8 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 1 (c) i) | Enghraifft:<br><br>Asiantau: Ffrindiau corsydd Brillington a Chymdeithas y Gwestywyr (1).<br><br>**Lefel 1**<br><br>Fyddai 'Cyfeillion corsydd Brillington' ddim eisiau i'r gwestai gael eu codi gerllaw gan y bydden nhw'n dinistrio'r bywyd gwyllt (1) ond mae cwmni'r gwesty eisiau dod yma er mwyn codi llety ac elwa ar gael ymwelwyr yn aros yno (3).<br><br>**Lefel 2**<br><br>Mae Cymdeithas Gwestywyr Brillington eisiau gwneud elw drwy godi ei gwestai gerllaw'r Corsydd – mae'r amcan hwn yn gwrthdaro â 'Cyfeillion corsydd Brillington' oherwydd mae eu gwrthwynebiad nhw'n un amgylcheddol yn hytrach na masnachol – maen nhw eisiau gweld y lle'n aros fel y mae yn ei gyflwr naturiol fel nad yw cynefinoedd bywyd gwyllt yn cael eu heffeithio gan y datblygiadau (5). | 1 marc am nodi dau asiant priodol<br><br>**Lefel 1**<br><br>1–3 marc am eglurhad sylfaenol sy'n ddamcaniaethol heb fanylion neu sy'n ymwneud â'r gwrthdaro'n unig<br><br>**Lefel 2**<br><br>4–6 marc am eglurhad manwl sy'n ymwneud â'r astudiaeth achos a'r amcanion sy'n gwrthdaro rhwng asiantau priodol<br><br>**7 marc** |
| 1 (c) ii) | **Lefel 1**<br><br>Petai'r ddau asiant yn eistedd i lawr mewn cyfarfod i lunio cynllun (1).<br><br>Cyn y gallai unrhyw ddatblygiad ddigwydd byddai angen i'r ddau asiant gwrdd i drafod sut gallai'r ddwy ochr gyrraedd eu hamcanion ac felly drwy weithio gyda'i gilydd gallent ddatrys eu gwahaniaethau (3).<br><br>**Lefel 2**<br><br>Petai'r ddau asiant yn cael cyfarfod cynllunio ar y cyd lle byddai modd clywed pwyntiau 'Cyfeillion corsydd Brillington' yna gallai Cymdeithas y Gwestywyr ymateb i'r rhain a'u cynnwys yn eu cynllunio e.e. defnyddio sgriniau, tirlunio er mwyn cuddio'r gwesty, adeiladu pan nad yw'n dymor mudo e.e. (5).<br><br>Marciau llawn lle mae cyfeiriad at ddatrys amcanion sy'n gwrthdaro – mae hynny'n golygu wedyn bod y ddau asiant yn fodlon achos mae Cymdeithas y Gwestywyr yn dal i allu bwrw ati a chael cyfle i wneud elw ac mae 'Cyfeillion corsydd Brillington' yn gweld bod eu pryderon yn cael sylw a bod y corsydd yn cael eu diogelu (6). | **Lefel 1**<br><br>1–3 marc am awgrymiadau sylfaenol sy'n ddamcaniaethol a heb fanylder. Mae'n datrys y gwrthdaro'n hytrach nag ymwneud â gwahanol amcanion.<br><br>**Lefel 2**<br><br>4–6 marc am awgrymiadau manwl wedi'u cysylltu'n eglur â Chorsydd Brillington a'r ddau asiant sydd ynghlwm wrth y mater a sut mae datrys sefyllfa lle mae amcanion sy'n gwrthdaro<br><br>**6 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 2 (a) i) | Cyfnod archwilio (1). | 1 marc nodi'r cyfnod yn gywir<br>**1 marc** |
| 2 (a) ii) | Mae agwedd pobl leol yn gadarnhaol tuag at dwristiaeth (1).<br>Nifer fach o ymwelwyr yn cyrraedd (1).<br>Chwilio am gyrchfannau 'heb eu difetha' (2).<br>Nifer fach o ymwelwyr yn cyrraedd (1) ychydig o effeithiau negyddol sy'n cael eu creu (2). | 1 marc am sylw sylfaenol<br>2 farc am sylw manwl neu ddau sylw sylfaenol<br>**2 farc** |
| 2 (a) iii) | **Lefel 1**<br>Gallai pobl leol gael swyddi yn y diwydiant twristiaeth a gwneud arian o hyn (1) gallai'r arian o dwristiaeth gael ei roi 'nôl yn yr economi leol (2).<br>**Lefel 2**<br>Effaith economaidd gadarnhaol fyddai pobl leol yn gosod ystafelloedd yn eu cartrefi neu wrth i amser fynd rhagddo, gwaith i bobl leol mewn twristiaeth, e.e. adeiladu gwestai. Gallai hyn fod yn anuniongyrchol e.e. ffermwyr yn gallu gwerthu eu nwyddau i westai a gosod stondinau i werthu'n uniongyrchol i dwristiaid sy'n hunanarlwyo (5).<br>**Lefel 3**<br>Effaith economaidd gadarnhaol fyddai cyflogaeth/gwaith uniongyrchol i bobl leol mewn twristiaeth, e.e. adeiladu gwestai ac isadeiledd ac amrediad o swyddi mewn gwestai a chyflogaeth/gwaith anuniongyrchol e.e. ffermwyr yn gallu gwerthu eu cynnyrch i westai a gosod stondinau i werthu'n uniongyrchol i dwristiaid sy'n hunanarlwyo. Effaith ddiwylliannol gymdeithasol fyddai rhannu cysylltiad diwylliannol yn gadarnhaol e.e. dysgu am wahanol draddodiadau yn y gyrchfan. | **Lefel 1**<br>1–3 marc<br>Disgrifiadau sylfaenol o effeithiau cadarnhaol, efallai o'r un math i gyd<br>**Lefel 2**<br>4–6 marc<br>Disgrifiad manwl o effeithiau cadarnhaol. Gellir cael marciau llawn am fod y cyfan o'r un math e.e. economaidd<br>**Lefel 3**<br>7–8 marc<br>Disgrifiadau manwl am fwy nag un math o effaith e.e. economaidd a diwylliannol gymdeithasol<br>**8 marc** |
| 2 (b) i) | Cyfnod dirywio (1). | 1 marc am nodi'r cyfnod yn gywir<br>**1 marc** |
| 2 (b) ii) | Niferoedd y twristiaid yn dirywio (1) oherwydd cyflwr gwael yr amgylchedd sy'n eu hatal rhag dod (2).<br>Gall fod drwgdeimlad rhwng pobl leol a thwristiaid. Mae effaith amgylcheddol sylweddol wedi arwain at ddirywiad yn nifer y twristiaid (2). | 1 marc am reswm sylfaenol<br>2 farc am reswm manwl neu wedi'i gysylltu'n eglur â'r cyfnod dirywio<br>**2 farc** |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Ateb enghreifftiol</th><th>Dyraniad marciau</th></tr>
<tr><td>2 (b) iii)</td><td>Lefel 1<br><br>Mae effeithiau negyddol ar yr amgylchedd yn cynnwys llygredd – fel llygredd gweledol y tirlun oherwydd datblygu gwestai concrit uchel sy’n cuddio’r gorwelion (2).<br><br>Lefel 2<br><br>Gallai effeithiau amgylcheddol negyddol sy’n codi o ddatblygu twristiaeth gynnwys gwahanol ffurfiau ar lygredd. Mae datblygu llawer o westai ar hyd yr arfordir fel yn Calvia yn aml yn gallu achosi llygredd dŵr o’r all-lifoedd carthion a sbwriel twristiaid yn mynd i’r môr gan achosi problem iechyd posibl i’r rhai sy’n ymdrochi. Caiff tirluniau eu heffeithio gan adeiladu datblygiadau gwestai enfawr nad ydynt yn ddeniadol yn weledol ac sy’n defnyddio tir a oedd yn dir agored a hynny’n arwain at ddatblygiadau blêr e.e. Costa Brava (4).<br><br>Lefel 3<br><br>Gall twristiaeth effeithio ar yr amgylchedd a’r bobl sy’n byw yno. Gall gwestai mawr ddefnyddio adnoddau prin fel dŵr i gyd, wrth i dwristiaid gael cawodydd yn aml ac er mwyn llenwi pyllau nofio. Lle mae cyrsiau golff mewn cyrchfannau poeth fel Mallorca mae hyn hefyd yn defnyddio dŵr, e.e. mae twristiaeth golff wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diweddar mewn llawer o fannau fel Sbaen, e.e. mae Costa del Sol yn ceisio newid delwedd yr ardaloedd hyn ond maen nhw’n niweidiol yn amgylcheddol mewn llawer o achosion (e.e.).<br><br>Gall pobl leol gael eu heffeithio gan dwristiaid sydd â gwerthoedd ac agweddau gwahanol a gall hyn achosi problemau mewn teuluoedd lle mae’r to sy’n codi eisiau ffyrdd o fyw tebyg i’r twristiaid ac efallai’n dechrau gwisgo’n wahanol ac amau gwerthoedd eu teulu e.e. mewn perthynas ag arferion crefyddol.<br><br>(8) (7 + 1 e.e. =8)</td><td>Lefel 1<br><br>1–3 marc am atebion sylfaenol, gall pob un fod yn rhai amgylcheddol, economaidd, neu bob un yn ddiwylliannol gymdeithasol neu un eglurhad manwl<br><br>Lefel 2<br><br>4–6 marc am beth dadansoddi ond gallai ganolbwyntio ar un math o dwristiaeth<br><br>Lefel 3<br><br>7–8 marc am ddadansoddi cyson sy’n cwmpasu o leiaf ddau o’r effeithiau amgylcheddol, economaidd a diwylliannol gymdeithasol<br><br>Enghreifftiau:<br><br>2 farc am enghreifftiau priodol wedi’u defnyddio i gefnogi’r ateb<br><br>10 marc</td></tr>
<tr><td>2 (c) i)</td><td>Cyfnod adfywio</td><td>1 marc am nodi’r cyfnod yn gywir<br><br>1 marc</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 2 (c) ii) | Mae'n lleihau effeithiau economaidd negyddol (1).<br><br>Mae'n lleihau effeithiau amgylcheddol, economaidd, a diwylliannol gymdeithasol negyddol (2).<br><br>Mae'n creu manteision economaidd i bobl leol ac yn gwella eu hansawdd bywyd (2). | Hyd at 2 farc am bob egwyddor<br><br>1 marc am ddisgrifiad sylfaenol<br><br>2 farc am ddisgrifiad manwl<br><br>**4 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Ateb enghreifftiol</th><th>Dyraniad marciau</th></tr>
<tr><td>2 (c) iii)</td><td>Lefel 1<br><br>Mae hen westai’n cael eu hadnewyddu a’u hailbeintio er mwyn gwella’r amgylchedd – bydd hyn yn helpu i ddenu twristiaid yn ôl a chodi niferoedd eto ar ôl y cyfnod o ddirywiad. (2).<br><br>Lefel 2<br><br>Mae rhai cyrchfannau yn y ‘costas’ yn Sbaen ac yn Mallorca wedi tynnu rhai gwestai hŷn i lawr a dim ond 4* neu drosodd sy’n cael eu hadeiladu nawr. Hefyd mae unrhyw westai newydd yn gorfod bod yn llai na hyn a hyn o loriau a rhaid cael rhywfaint o dirlunio am bob gwely. Gellir gwneud asesiad o’r effaith economaidd i asesu effeithiau negyddol posibl unrhyw ddatblygiadau gwestai newydd. Mae hyn er mwyn i ddatblygwyr gynnwys yn y dyluniad nodweddion sy’n golygu bod llai o effaith amgylcheddol (5).<br><br>Lefel 3<br><br>Aeth ardal Calvia yn Mallorca fel unrhyw gyrchfan arall i dwristiaid oedd yn wynebu cyfnod o ddirywio yn y model cylchred oes, ati i ddefnyddio egwyddorion twristiaeth gyfrifol i gefnogi eu rhaglenni adfywio. Un dull a ddefnyddiwyd oedd rheoli cynllunio’n gaeth. Nid oes hawl datblygu ar y lan bellach mewn rhai cyrchfannau ac mae gwestai hŷn wedi cael eu tynnu i lawr a dim wedi dod yn eu lle. Yn lle hynny mae cyfleusterau cymunedol e.e. lleoedd chwarae, parciau ac ardaloedd wedi’u tirlunio wedi dod yn lle’r hen westai blociau tŵr. E.e. cafodd Palma Nova wared ar ei westy Playa Palma Nova ac yn ei le adeiladwyd lle chwarae (e.e.). Mae hyn nid yn unig yn gwella’r amgylchedd ond hefyd yn helpu i wella ansawdd bywyd i bobl leol drwy fuddsoddi mewn prosiectau cyhoeddus drwy ddarparu mwynderau cyhoeddus, mae’r ddau beth yn cefnogi ffurfiau mwy cyfrifol ar gynllunio twristiaeth o’i gymharu â’r datblygiadau heb eu cynllunio yn y 1970au. Fel buddsoddi mewn prosiectau cyhoeddus, ffordd arall o fanteisio i’r eithaf ar yr effeithiau cadarnhaol yw drwy addysgu ymwelwyr am dwristiaeth ac mae egluro am eu heffaith ar yr amgylchedd yn ffordd ymlaen e.e. ailddefnyddio tywelion mewn gwestai, sticeri’n atgoffa twristiaid i ddefnyddio egni’n effeithlon (9).<br><br>(8 +1 e.e.)</td><td>Lefel 1<br><br>1–3 marc<br><br>Eglurhad sylfaenol – gwneir rhai pwyntiau sylfaenol i ddangos sut gallai cyrchfan i dwristiaid geisio lleihau effeithiau negyddol twristiaid neu wneud yn fawr o’r rhai cadarnhaol – unochrog ac efallai’n ddamcaniaethol<br><br>Lefel 2<br><br>4–6 marc<br><br>Eglurhad manwl naill ai o leihau’r effeithiau negyddol neu wneud yn fawr o’r effeithiau cadarnhaol<br><br>Lefel 3<br><br>7–8 marc<br><br>Eglurhad manwl wedi’i gysylltu’n eglur â lleihau effeithiau twristiaeth a gwneud yn fawr ohonynt – ateb cytbwys<br><br>Enghreifftiau:<br><br>4 marc am enghreifftiau priodol wedi’u defnyddio i gefnogi’r ateb<br><br>12 marc</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 2 (c) iv) | **Lefel 1**<br>Drwy ei fuddsoddi mewn prosiectau lleol mae hyn yn helpu i wella ansawdd bywyd pobl leol (1).<br>**Lefel 2**<br>Un o egwyddorion twristiaeth gyfrifol yw 'gwella bywyd pobl leol' mewn cyrchfannau.  Lle mae gwestai wedi'u tynnu i lawr a pharciau wedi'u rhoi yn eu lle mae hyn yn amlwg yn helpu'r bobl leol sy'n gallu mwynhau'r mwynderau (3). | **Lefel 1**<br>1–2 marc<br>Asesiad sylfaenol – heb ei gysylltu'n eglur<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc<br>Cysylltiad eglur â'r egwyddorion a ddangoswyd a hynny'n cael ei gyfiawnhau<br>**4 marc** |

## DYRANIAD MARCIAU'R AMCANION ASESU

| Cwestiwn | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 (a) i) | 2 | | | | **2** |
| 1 (a) ii) | 2 | | | | **2** |
| 1 (a) iii) | | 2 | | | **2** |
| 1 (b) i) | | 6 | 6 | | **12** |
| 1 (b) ii) | 2 | 4 | | | **6** |
| 1 (b) iii) | | | 2 | 6 | **8** |
| 1 (c) i) | 1 | | | 6 | **7** |
| 1 (c) ii) | | 2 | | 4 | **6** |
| 2 (a) i) | 1 | | | | **1** |
| 2 (a) ii) | 2 | | | | **2** |
| 2 (a) iii) | | 4 | 4 | | **8** |
| 2 (b) i) | 1 | | | | **1** |
| 2 (b) ii) | 2 | | | | **2** |
| 2 (b) iii) | | | 6 | 4 | **10** |
| 2 (c) i) | 1 | | | | **1** |
| 2 (c) ii) | 4 | | | | **4** |
| 2 (c) iii) | | | 8 | 4 | **12** |
| 2 (c) iv) | | | | 4 | **4** |
| **Cyfanswm** | **18** | **18** | **26** | **28** | **90** |
| **%** | **20** | **20** | **29** | **31** | **100** |

## Uned 10: Hyrwyddo a Gwerthiant mewn Teithio a Thwristiaeth

## Cynllun marcio

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 1 (a) | Cyfathrebu llafar – ynganu eglur (2).<br>Technegau holi fel defnyddio cwestiynau agored (2).<br>Gwrando (1).<br>Amynedd (1). | Hyd at 2 farc am bob sgìl a ddisgrifir<br>**6 marc** |
| 1 (b) | Gerddi, terasau haul, trên bach, cludiant, Jacuzzi, sba a sawna, tylino'r corff, Gwyliau â phopeth wedi'i gynnwys<br>e.e.<br>Gwyliau â phopeth wedi'i gynnwys fel nad oes rhaid iddyn nhw boeni am beth a ble i fwyta na choginio a chlirio felly bydd yn wyliau ymlaciol (2).<br>Gwersi Sbaeneg felly cyfle i fwynhau'r diwylliant (1). | 1 marc am bob nodwedd a ddisgrifir a hyd at 2 farc am eglurhad<br>**6 marc** |
| 1 (c) | **Lefel 1**<br>Eu hatgoffa o'r nodweddion a'r manteision yn y gwesty.<br>**Lefel 2**<br>Dweud wrthyn nhw nad ydy e'n bell a bod digon i'w wneud yn y gwesty.<br>**Lefel 3**<br>Eu hatgoffa o bwrpas eu hymweliad. Egluro ei fod yn wyliau sy'n cynnwys popeth felly ni fydd rhaid iddyn nhw fynd i'r gyrchfan a bydd aros lle maen nhw'n ymlaciol. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol heb lawer o resymu<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am beth egluro<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am egluro manwl wedi'i gysylltu'n eglur â'r cwsmeriaid<br>**6 marc** |
| 2 (a) | **Lefel 1**<br>Mae ymchwil gynradd hefyd yn ymchwil maes ac mae'n mynd yn uniongyrchol i'r cwsmer, fel holiaduron.  Mae ymchwil eilaidd hefyd yn ymchwil desg fel y rhyngrwyd neu ystadegau.<br>**Lefel 2**<br>Mae ymchwil gynradd yn cael ei threfnu gan y sefydliad tra bo'r sefydliad yn defnyddio ymchwil a drefnwyd gan eraill mewn ymchwil eilaidd | **Lefel 1**<br>1–2 farc am ddisgrifiad sylfaenol o bob math neu enghreifftiau wedi'u rhoi<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am ymateb manwl sy'n gwahaniaethu'n eglur rhwng y ddau<br>**4 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 2 (b) | **Lefel 1**<br>Mae'r ddwy ffordd yn ddrud. Ymateb gwael sydd i holiaduron drwy'r post. Mae holiaduron dros y ffôn yn cael gwell ymateb.<br>**Lefel 2**<br>Mae gan y cwmni filiwn o gwsmeriaid ac felly llawer o fanylion cyswllt y gallent eu defnyddio i wneud holiaduron post ond bydd yn ddrud i bostio pob un allan ac mae'r ymateb yn wael. Hefyd dydych chi ddim yn cael adborth gan bobl nad ydynt yn gwsmeriaid.<br>**Lefel 3**<br>Mae gan y cwmni filiwn o gwsmeriaid ac felly llawer o fanylion cyswllt y gallent eu defnyddio i wneud holiaduron post ond bydd yn ddrud i bostio pob un allan ac mae'r ymateb yn wael. Hefyd dim ond cwsmeriaid presennol bydd hyn yn eu targedu felly fyddan nhw ddim yn cael adborth oddi wrth y rhai nad ydyn nhw'n gwsmeriaid a'u hargraff nhw o'r hyrwyddo. Mae holiaduron drwy'r post yn ddrud ond does dim angen staff. Holiaduron ffôn, mae'r alwad ffôn yn rhad ond mae'n rhaid talu staff ond os ydynt yn adegau tawel o'r flwyddyn heb fod adeg tymor brig, mae'n ffordd dda o ddefnyddio'r staff. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddamcaniaethol ac yn ddisgrifiadol<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am ddadansoddi sylfaenol a pheth cysylltiad â'r senario<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am ddadansoddi amlwg gan ddefnyddio gwybodaeth o'r astudiaeth achos<br>**6 marc** |
| 2 (c) | **Lefel 1**<br>Gallan nhw hysbysebu fel bod mwy o bobl yn gwybod amdano a gwerthu mwy o wyliau i wneud elw.<br>**Lefel 2**<br>Gallant dargedu gweithgareddau hyrwyddo at y grŵp economaidd gymdeithasol AB drwy ddewis cyfryngau a gwybodaeth ysgrifenedig briodol. Gallant hefyd ddefnyddio hyrwyddo i gyflwyno'r neges i amrediad ehangach o bobl i gynyddu gwerthiant i ddenu hanner miliwn o gwsmeriaid newydd drwy ddewis dull sy'n apelio mwy at farchnad dorfol. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol heb fanylion a lle mae peth rhesymu<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am eglurhad eglur<br>**4 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 2 (ch) | **Lefel 1**<br>Os bydd graddfeydd llog yn codi bydd hyn yn cyfyngu ar bobl yn bwcio gwyliau gan na fydd ganddyn nhw arian i'w wario.<br>**Lefel 2**<br>Mae graddfeydd llog yn dal yn gymharol isel ond maen nhw wedi codi ychydig yn ystod y blynyddoedd diweddar felly efallai mai ychydig o incwm sydd gan gwsmeriaid i'w wario felly efallai bydd angen i weithgareddau hyrwyddo ganolbwyntio ar hyrwyddiadau gwerthiant gan fod pobl yn sensitif i bris gwyliau a gall ffyrdd o ostwng prisiau annog pobl i archebu gwyliau, yn enwedig os ydynt yn cael eu cyflwyno pan fydd y newidiadau yn y gyfradd llog yn cael eu cyhoeddi.<br>**Lefel 3**<br>Fel yr uchod gyda ffactorau eraill wedi'u dadansoddi. | **Lefel 1**<br>1–3 marc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol ac yn ddamcaniaethol<br>**Lefel 2**<br>4–6 marc am beth dadansoddi<br>**Lefel 3**<br>7–8 marc am ddadansoddi manwl wedi'i gysylltu'n eglur â'r senario<br>**8 marc** |
| 3 (a) | Arddangosiadau — lle mae deunyddiau hyrwyddo'n cael eu cyflwyno'n ddiddorol megis mewn stondin arddangos neu resel taflenni.<br>Hysbysebu — lle caiff corff arall ei dalu i hyrwyddo nwyddau a gwasanaethau drwy amrediad o gyfryngau fel y teledu a'r radio.<br>Cysylltiadau cyhoeddus – lle mae cyhoeddusrwydd am ddim yn cael ei dderbyn i hyrwyddo'r corff yn gadarnhaol drwy ddatganiadau i'r wasg neu ddigwyddiadau arbennig. | 2 farc am bob techneg a ddisgrifiwyd<br>**6 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 3 (b) | **Lefel 1**<br><br>Maen nhw wedi defnyddio technegau gwahanol. Maen nhw wedi defnyddio nawdd yn yr Alban.<br><br>**Lefel 2**<br><br>Maen nhw wedi defnyddio nawdd ond dim ond teledu'r Alban felly nid dros wledydd Prydain i gyd ac efallai nad yw'n briodol i'r farchnad darged neu'n denu hanner miliwn arall<br><br>**Lefel 3**<br><br>Mae'n annog pobl i fwcio'n gynnar felly gallant gymryd eu blaendal neu eu taliad felly gallant ennill arian a gwella eu llif arian. Mae'r Alban yn cael hwb da gyda'r teledu gan fod dwy swyddfa ond dim gwledydd Prydain i gyd, sef yr amcan. Nid yw teledu'r Alban yn codi ymwybyddiaeth o'r llyfryn, dim ond o'r cwmni gwyliau. | **Lefel 1**<br><br>1–3 marc am atebion sylfaenol disgrifiadol yn bennaf<br><br>**Lefel 2**<br><br>4–6 marc am beth gwerthuso<br><br>**Lefel 3**<br><br>7–8 marc am werthuso manwl wedi'i gysylltu'n eglur â'r amcanion<br><br>**8 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 3 (c) | **Lefel 1**<br><br>Does dim delweddau, dim lliw, diffyg gwybodaeth, dim manylion cysylltu.<br><br>**Lefel 2**<br><br>Does dim delweddau felly nid yw'n ysgogi diddordeb. Does dim manylion cysylltu felly all neb sydd â diddordeb archebu gwyliau.<br><br>**Lefel 3**<br><br>Fel yr uchod gyda rhesymau am bob gwendid. Agweddau cadarnhaol yw ei fod wedi'i strwythuro'n dda, diwyg da, mae'n tanlinellu'r prif fanteision, cyfeirnod y gallant ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil marchnata yn y dyfodol. | **Lefel 1**<br><br>1–3 marc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol yn bennaf<br><br>**Lefel 2**<br><br>4-6 marc am beth gwerthuso<br><br>**Lefel 3**<br><br>7–8 marc am werthusiad manwl yn ystyried agweddau cadarnhaol a negyddol<br><br>**8 marc** |
| 3 (ch) | Enw'r cwmni<br><br>Wedi'i gyfeirio at y person (*personalised)*<br><br>Manylion cyswllt | 1 marc am bob pwynt sy'n cael ei gynnwys yn y cerdyn post hyd at uchafswm o 4<br><br>Hyd at 2 farc am y diwyg<br><br>Hyd at 2 farc am yr arddull a'r cysylltiad â'r farchnad darged<br><br>**8 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 3 (d) i) | **Lefel 1**<br>Cardiau post at bawb sydd wedi archebu gwyliau o'r blaen. Noddi rhaglen deledu. Hysbyseb mewn papur newydd.<br>**Lefel 2**<br>Cardiau post at bawb sydd wedi archebu gwyliau o'r blaen. Noddi rhaglen deledu yn yr Alban gyda throsleisio. Hysbyseb mewn papur newydd rhanbarthol.<br>**Lefel 3**<br>Cerdyn post ond nid at bob person ond at bob pâr a wariodd fwy na swm penodol. Hysbysebu mewn dau bapur newydd cenedlaethol mewn lliw ar ddau ddydd Sul ar ddechrau'r lansio. Hyrwyddo ar y wefan. Gwybodaeth gyda thocynnau ac anfonebau. Datganiad i'r wasg i bapurau newydd o ansawdd a rhai cylchgronau 'ffordd o fyw'. Posteri i ffenestri Siopau Teithio/Travel Shops. Staff yn sôn amdano wrth i'r cwsmeriaid archebu gwyliau. Costau i gael eu nodi a chyfrifo'r cyfanswm. Dim cost am eitemau o'r hyrwyddo ar y wefan. | **Lefel 1**<br>1-3 marc am atebion sylfaenol gydag ychydig o fanylion neu lawer wedi'i adael allan<br>**Lefel 2**<br>4–6 marc am beth manylion gyda rhai pethau'n anghywir<br>**Lefel 3**<br>7–8 marc am ddisgrifiadau a chyfrifiadau manwl a chywir<br>**8 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 3 (d) ii) | **Lefel 1**<br><br>Cerdyn post at bawb sydd wedi archebu gwyliau o'r blaen gan eu bod yn gwybod am y cwmni. Noddi rhaglen deledu yn yr Alban gyda throsleisio fel eu bod yn gwybod am y llyfryn. Hysbyseb mewn papur newydd rhanbarthol.<br><br>**Lefel 2**<br><br>Cerdyn post at bawb sydd wedi bwcio o'r blaen gan eu bod yn gwybod am y cwmni ac maen nhw wedi cael amser da felly bydd diddordeb gyda nhw mewn archebu gwyliau eto. Noddi rhaglen deledu yn yr Alban gyda throsleisio gan y gallant sôn am y llyfryn a lle mae ar gael fel gall pobl gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Hysbyseb mewn papur rhanbarthol ond bydd rhaid iddo fod mewn gwahanol bapurau i gwmpasu pob rhanbarth ond yn bennaf y rhai lle mae Siop Deithio / Travel Shop i annog pobl sy'n byw'n agos i archebu gwyliau.<br><br>**Lefel 3**<br><br>Os anfonir cardiau post at bawb mae'n llawer o arian sy'n cael ei wastraffu gan nad yw pawb yn y farchnad darged. Felly drwy ddewis rhai sydd wedi gwario dros swm arbennig maen nhw'n debygol o fod mewn grŵp economaidd gymdeithasol. Mae papurau newydd ar ddydd Sul yn boblogaidd gan y grŵp economaidd gymdeithasol gan fod eraill yn hysbysebu yno. Mae cael pythefnos i gadarnhau'r neges yn ddefnyddiol a dal sylw'r rhai nad ydyn nhw'n darllen yr wythnos gyntaf a'u cyflwyno i'r syniad ar ddechrau'r ymgyrch. Bydd y lliw'n gwneud iddo fod yn wahanol i'r lleill sydd bob amser yn ymddangos yno felly mae'n werth yr arian ychwanegol ac ati. | **Lefel 1**<br><br>1–2 farc am atebion sylfaenol sy'n ddisgrifiadol yn bennaf<br><br>**Lefel 2**<br><br>3-4 marc am beth egluro ond gyda phethau ar goll<br><br>**Lefel 3**<br><br>5–6 marc am eglurhad manwl yn cwmpasu pob agwedd ar y cynllun<br><br>**6 marc** |

| Cwestiwn | Ateb enghreifftiol | Dyraniad marciau |
|---|---|---|
| 4 | **Lefel 1**<br>Cafodd Alton Towers ymgyrch am y reid newydd Oblivion.  Roedd hysbysebu ar deledu a radio a thaflenni am y reid honno'n unig.  Roedd hyn yn golygu bod llawer o bobl wedi dod i wybod amdano.<br>**Lefel 2**<br>Cafodd Alton Towers ymgyrch am y reid newydd Oblivion. Defnyddion nhw amrediad o dechnegau a deunyddiau ac roedd ganddyn nhw gyllideb fawr felly roedd hyn yn cynnwys hysbysebu ar deledu.  Efallai ei fod yn ymddangos fel cyllideb fawr ond roedden nhw hefyd yn lansio dechrau'r tymor felly byddai cyllideb debyg gyda nhw beth bynnag.<br>**Lefel 3**<br>Fel yr uchod gyda dadansoddi pellach yn gysylltiedig â gweithgareddau penodol. | **Lefel 1**<br>1–2 farc am atebion sylfaenol heb fanylion ac sydd â pheth rhesymu<br>**Lefel 2**<br>3–4 marc am ddadansoddi<br>**Lefel 3**<br>5–6 marc am atebion wedi'u datblygu gyda dadansoddi manwl a chyson<br>**6 marc** |

## DYRANIAD MARCIAU'R AMCANION ASESU

| Cwestiwn | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 (a) | 6 | | | | **6** |
| 1 (b) | | 6 | | | **6** |
| 1 (c) | | 6 | | | **6** |
| 2 (a) | 4 | | | | **4** |
| 2 (b) | | | 6 | | **6** |
| 2 (c) | 4 | | | | **4** |
| 2 (ch) | | | 8 | | **8** |
| 3 (a) | 6 | | | | **6** |
| 3 (b) | | | | 8 | **8** |
| 3 (c) | | 8 | | | **8** |
| 3 (ch) | | | | 8 | **8** |
| 3 (d) i) | | | | 8 | **8** |
| 3 (d) ii) | | 6 | | | **6** |
| 4 | | | 6 | | **6** |
| **Cyfanswm** | **20** | **26** | **20** | **24** | **90** |
| **%** | **22** | **29** | **22** | **27** | **100** |

Mae rhagor o gopïau o'r cyhoeddiad hwn ar gael o
Edexcel Publications, Adamsway, Mansfield, Notts, NG18 4FN

Ffôn: 01623 467467
Ffacs: 01623 450481
E-bost: publications@linneydirect.com

Cod Archebu UA015762 Gorffennaf 2005

Am ragor o wybodaeth am gymwysterau Edexcel a BTEC cysylltwch â
Gwasanaethau i Gwsmeriaid ar 0870 240 9800
neu http://enquiries.edexcel.org.uk
neu ewch i'n gwefan: www.edexcel.org.uk

Edexcel Cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif. 4496750
Swyddfa Gofrestredig: One90 High Holborn, Llundain WC1V 7BH